# HYSBYSIAD ETHOLIAD
# ETHOLIAD SENEDD Y DU
# ETHOLAETH ALUN A GLANNAU DYFRDWY

1 Cynhelir etholiad i ethol Aelod i wasanaethu yn Senedd y Deyrnas Unedig dros yr Etholaeth uchod.

2 Mae papurau enwebu ar gael yn y lle a nodir isod. Bydd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol, ar gais unrhyw etholwr, yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi.

3 Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw i Swyddog Canlyniadau Gweithredol yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NR rhwng **10am a 4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond erbyn **4pm ddydd Gwener 7 Mehefin 2024** fan bellaf.

4 Rhaid talu blaendal o £500 am bob ymgeisydd naill ai mewn arian parod, ddrafft banc (banciau'n gweithredu o fewn y Deyrnas Unedig yn unig) neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol

5 Os bydd mwy nag un ymgeisydd, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024**

6 Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **dydd Mawrth 18 Mehefin 2024.** Gellir gwneud ceisiadau ar lein yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

7 Rhaid i geisiadau, diwygiadau neu ddiddymiadau pleidleisiau post gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ar Ddydd Mercher 19 Mehefin 2024.** Gellir gwneud ceisiadau ar lein yn **www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwyr-post**

8 Rhaid i unrhyw gais i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol berthnasol isod erbyn **5pm ddydd Mercher 26 Mehefin 2024**. Gellir gwneud ceisiadau ar lein yn **www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwy-ddirprwy**

9 Rhaid i geisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr neu Ddogfen Etholwr Anhysbys sy'n ddilys ar gyfer yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ar ddydd Mercher 26 Mehefin 2024**. Gellir gwneud ceisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar-lein **www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr**.

10 Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith / gwasanaeth gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024**. Mae'n rhaid bod yr analluedd corfforol wedi digwydd **ar ôl 5pm ddydd Mercher 26 Mehefin 2024**. I wneud cais ar sail gwaith / gwasanaeth mae'n rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol **ar ôl 5pm ddydd Mercher 26 Mehefin 2024**

| Manylion Cysylltu r Swyddog Cofrestru Etholiadol | Rhif Ffôn |
|---|---|
| Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR | 01352 702300 |

**Neal Cockerton**
**Swyddog Canlyniadau Gweithredol**

**Dyddiedig: Dydd Gwener 31 Mai 2024**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NR